Y briodas yng Nghana

Y mae cariad yn hirymarhous; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo.

Gair i'n gilydd

Washington, yr Orsaf Metro, bore oer ym mis Ionawr. Dyn gyda ffidil yn chwarae 6 darn o gerddoriaeth gan Bach am rhyw ¾ awr. Yn ystod yr amser fe aeth tua 2000 o bobl trwy'r Orsaf, y rhan fwyaf ar eu ffordd i'r gwaith.

3 MUNUD:

Dyn canol oed yn sylweddoli bod na rhywun yn chwarae, arafu ei gam, oedi am ychydig o eiliadau ac yna prysuro mlaen.

4 MUNUD YN DDIWERADDACH :

Y cerddor yn derbyn ei arian cyntaf – menyw yn daflu $1 i'w het, heb stopio, ond cerdded ymlaen.

6 MUNUD:

Dyn ifanc yn pwyso yn erbyn wal i wrando, edrych ar ei wats ac yn cerdded bant.

10 MUNUD:

Plentyn tua 3 mlwydd oed yn stopio i wrando ond ei fam yn ei dynnu ymlaen. Y plentyn yn stopio'r eildro i edrych ond ei fam yn ei wthio ymlaen, y plentyn yn dal i gerdded ond yn troi i edrych yn ôl sawl gwaith. Digwyddodd hyn gyda sawl plentyn ond y rhiant bob tro yn eu symud ymlaen yn gyflym.

45 MUNUD:

Y cerddor yn dal i chwarae. Dim ond rhyw chwech o bobol a wnaeth sefyll i wrando am rhyw ychydig. Rhoddodd rhyw ugain person arian wrth basio. Llawer ohonynt yn gwrando ar rhywbeth arall – fel eu ffôn symudol. Sawl un yn troi eu pennau fel bod dim rhaid edrych arno.

1 AWR:

Y chwarae yn gorffen – distawrwydd. Neb yn sylwi. Neb yn cymeradwyo. Dim ymateb.

Doedd neb yn gwybod mai'r cerddor oedd Joshua Bell, un o gerddorion mwyaf y byd yn gwisgo dillad cyffredin yn chwarae rhai o'r darnau mwyaf anodd a chymhleth a ysgrifennwyd

erioed. Yr oedd y ffidil yn ei law gwerth $3.5 miliwn. Ychydig o ddyddiau cyn hyn roedd Joshua Bell wedi bod yn chwarae yr un darnau mewn theatr yn Boston lle roedd bob tocyn wedi ei werthu, y tocyn rhataf yn $100.

Stori wir yw hon. Y Washington Post oedd wedi trefnu'r digwyddiad er mwyn gweld beth fyddai ymateb bobl i'r cwestiynau hyn. Mewn lle annisgwyl o gyffredin ar amser anaddas ydi pobl yn ymateb i harddwch? Yn aros i'w werthfawrogi? Yn ymwybodol o dalent mewn cyd-destun "gwahanol"?

Tybed a fyddai'r canlyniadau wedi bod yn debyg petaem ni wedi bod yno. Nid wyf yn meddwl am y gerddoriaeth, ond am ein hymateb ni wrth weld llaw Duw ar waith. Ydan ni yn barod i weld EI Waith yn y llefydd mwyaf annisgwyl, gan bobl hollol annisgwyl? Gallaf feddwl am gymaint o enghreifftiau o grwpiau, sefydliadau ac unigolion sy'n gwneud cymaint o ddaioni i geisio creu bywyd a byd gwell. Byddai'n anodd iawn meddwl *nad* Duw sydd ar waith. Tybed beth yw ein hymateb ni? Tebyg i eiddo'r rhai yn yr Orsaf Metro gyda'r cerddor? Neu'n fodlon derbyn bod Duw yn gweithio mewn llawer dull a llawer modd ac mewn ffyrdd sy'n "wahanol" ac efallai yn ddieithr i ni? A fyddem ni'n ymateb yn bositif i hyn? Tybed?

"Mae Duw yn llond bob lle – presennol ym mhob man"

Ann Davies

Newyddion

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau ...

- i Nia Lowri a Phil Davies ar enedigaeth Alys Elena, chwaer i Cari a Lili ac wyres i Ifor a Valmai Davies;
- i Walford a Marlene Gealy sydd yn dathlu dyfodiad dwy wyres yn ystod yr haf, sef Ffion Haf, merch i Ioan a Carmel yng Nghasnewydd ac Enlli Sara, merch i Steffan a Claire ym Mhenybont ar Ogwr;
- i Geraint a Iola Jones, Brodawel, Rhoshendre ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar;

- i Emily Stephens, Maes Gogerddan ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed a Nancy Edwards, Fflatiau Rhydyrafon ar ddathlu ei phen blwydd yn 95 oed.

Llongyfarchiadau hefyd ...

- i Wynford Evans am gwblhau cyfnod o drigain mlynedd fel blaenor yn yr Henaduriaeth. Etholwyd ef yn ŵr ifanc i wasanaethu yn ei eglwys yng Nghwmerfyn. Cafodd ei longyfarch yn yr Henaduriaeth ac yn y Sasiwn;
- i Anest Non Eirug ar ennill y cwpan Cerdd Dant dan 12 oed yn Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan;
- i Menna Monday, Cartref Tregerddan, am ennill gwobrau am waith tapestri yn Sioe Tal-y-bont ac i Gwen Jones, Stryd y Cae Glas ar ei llwyddiant yn Sioe Llanbadarn Fawr yn ddiweddar pan enillodd wobrau am greu cardiau cyfarch a llun mewn brodwaith.

Anfonwn ein cofion ...

- at aelodau sydd wedi derbyn triniaeth neu wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar: Gwennant Gillespie, William Griffiths, Carrie Harries (sydd bellach yn Ysbyty Tregaron), Margaret Brynmor Jones a Morys Gruffydd, Blaenplwyf;
- at Gwyn Parry Williams, Alltwen, Ffordd Penglais, sydd yn Ysbyty Tregaron;
- at David Griffiths, Coedlan y Plas sydd yn treulio cyfnod yng Nghartref Bodlondeb.

Dymunwn yn dda ...

- i Arwel Jones a Sharon Owen ar eu priodas yng Nghapel y Morfa ar 26 Fedi ac yn eu cartref newydd yn Garreg Lwyd, Heol Penglais.

Croeso cynnes ...

- i Mona Bowen a dderbyniwyd yn aelod yng Nghapel y Morfa ar fore Sul, 20 Medi. Mae wedi symud o Lerpwl i fyw yn 32, Gerddi Rheidol.

Cydymdeimlwn yn ddwys ...

- ag Ieuan James sydd wedi colli ei nai yn ystod yr haf, sef Aled James a oedd yn byw yn Llechryd ger Aberteifi;

- â Glyndwr Griffiths gan ei fod wedi colli nai arall, sef Glyndwr Griffith Hurst a oedd yn byw yn Nowlais.
- â Mrs. Elizabeth Davies, 17 Llys Hen Ysgol sydd wedi colli ei phriod, Mr. Enoch Davies. Er iddynt barhau yn aelodau yng Nghapel Llanon, lle y buont yn byw ar ôl ymddeol o Lundain, roeddent yn gyfeillion da i Gapel y Morfa ac yn ffyddlon i'r gwasanaethau wedi iddynt symud i fyw yn y dref.

Dadorchuddio plac

Dadorchuddiwyd plac er cof am Tomos Befan Owen, mab Huw a Mary Owen, yng Nghanolfan y Cyfryngau, Stadiwm SWALEC, Caerdydd ar 17 Medi gan ei frawd Hywel. Trefnwyd yr achlysur gan Adran Chwaraeon, BBC Cymru gyda chyd-weithrediad Clwb Criced Morgannwg. Talwyd teyrn-gedau i weithgarwch Tomos fel cynhyrchydd chwaraeon y BBC gan Edward Bevan a Huw Llewelyn Davies, dau gyfaill a chyd-weithiwr.



Gosodwyd ar y plac yr englyn canlynol o waith y prifardd Aled Gwyn:

Dawnus yng nghampau dynion – gŵr cadarn
o gricedwr union,
a rhoddi wnaeth o'r ddawn hon
a chreu drwy fyd chwaraeon.

Hel meddyliau

Roeddwn yn eistedd ar y Prom ar un o'r dyddiau braf, braf a gawsom yn ddiweddar ac yn edrych ar y môr. Roedd y tonnau'n llithro'n dawel dros y traeth, yr awyr yn las – dim cwmwl yn unlle, a'r haul yn tywynnu'n gynnes – ac mi roedd hi'n dawel ar ddechrau'r prynhawn.

Eisteddai gwraig wrth fy ochr nad oedd wedi gweld y môr ers blynyddoedd. Bu hi'n gaeth i salwch am dymor hir ond roedd wedi gwella digon i ddod o'i chartref yng nghanol mynyddoedd sir Feirionnydd i Aber am dro.

Roedd hi'n fud – ni ddywedai air, dim ond syllu a syllu ar y môr. O'r diwedd dyma hi'n rhoi ochenaid ac yn dweud, 'O mae'n ardderchog, yn ardderchog yn wir – mi fyddai yn cario'r olygfa yma nôl efo fi adre ac mi fydd yn fy llonni am ddyddiau lawer wrth feddwl amdani.'

Roedd hi'n wên o glust i glust ac wedi cael modd i fyw.

Bu harddwch a gogoniant y byd o'n cwmpas yn destun rhyfeddod erioed – na fydded i neb ohonom ni golli'r ddawn i ryfeddu at Greadigaeth Duw.

Newyddion Ebeneser

'*Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw, oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd. Daionus yw yr Arglwydd. Ef a'n gwnaeth ac nid ni ein hunain. Ei bobl Ef ydym a defaid ei borfa. Diolchwch iddo a*

bendithiwch ei enw. *Y mae ei drugaredd yn dragywydd*, *a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth*.'

Ydi, mae'n adeg Gŵyl Ddiolchgarwch unwaith eto, pryd y down ynghyd i gydnabod daioni Duw inni ar hyd y flwyddyn. Y mae'n werth cadw Gŵyl Ddiolchgarwch, pe ond i'n hatgoffa o'n dibyniad llwyr ar Dduw, am anadl, einioes, ac iechyd a holl fendithion daear a byd, yn dymhorol ac ysbrydol. Hyd yn oed yn yr oes wyddonol hon, y mae mor wir ag erioed mai ynddo Ef yr ydym yn byw, symud a bod. Efallai nad ydym yn sylweddoli hynny hanner ein hamser, ond dyna'r gwir. Derbyniwn yn helaeth oddi wrth Dduw ac felly mae'n deg i ni dalu diolch am ei holl ddaioni i ni yn ein bywyd. Ond, wrth dderbyn holl roddion Duw, gwyliwn rhag fod â thrachwant hefyd. Er cystal ei roddion tymhorol, y mae Duw ar ei orau yn ei fendithion ysbrydol. Uwchlaw pob peth diolch i Dduw am ei gariad tuag atom yn ei rodd i ni o Iesu Grist. Mae'r Iesu wedi dweud wrthym am fwynhau bywyd yn ei holl gyflawnder.

I Ti, ein Tad, diolchwn
Am holl fendithion byw,
Tydi wyt Dduw'r Creawdwr,
A Thad holl ddynolryw.
Bendithiaist ni â'th gariad,
O'r dechrau hyd yn awr.
A rhoddwn ni ein bywyd
I garu teulu'r llawr. Amen.

Gan fod oedfaon capeli Cymraeg y dref yn uno drwy mis Awst, rydym ni yn Ebeneser yn ffodus iawn i gael gwasanaeth y pregethwyr hyn, ac yn ddiolchgar ein bod yn medru cadw drws y capel bach ar agor yn groesawgar yn ystod y mis.

Mae amser gwyliau wedi mynd heibio a thymor yr Hydref wedi cyrraedd. Gobeithio y bydd yr aelodau a ffrindiau yn parhau i ddod yn ffyddlon a chyson i'r oedfa ar brynhawn Sul.

Braint oedd cael Dr Rhidian Griffiths gyda ni ar Sul, 6 Medi – ei oedfa gymun gyntaf yn Ebeneser ac hefyd y Parch Ddr John Tudno Williams ar 20 Medi - dwy oedfa fendithiol iawn.

Brynhawn Sul, 13 Medi, croesawyd atom i gynnal gwasanaeth, Dr Rhys Jones, un o flaenoriaid etholedig y Morfa a hefyd i'w gynorthwyo yr Athro Alun Morris a Mary wrth yr

organ. Rhaid dweud bod y gwasanaeth yn un hynod ddiddorol gyda 'arwyddocâd dŵr' yn thema. Mae gennym ni ddigonedd o ddŵr ac felly rydym yn ei gymryd yn ganiataol. Roedd y sefyllfa yn wahanol iawn ym Mhalestina yng nghyfnod Iesu Grist, rhaid oedd tynnu dŵr o ffynhonnau i'w cynnal. Cafwyd braslun o hanes problem dŵr yn y Dwyrain Canol gyfoes gan Alun. Yn y Testament Newydd cynrychiolir Iesu Grist a'i gariad fel dŵr bywiol â fydd yn adnewyddu eneidiau'r rhai sydd yn credu ynddo. Gweler hyn yn Efengyl Ioan yn stori'r wraig o Samaria wrth Ffynnon Jacob a'r Iesu yn cynnig dŵr bywiol iddi hi. Prif amcan yr Iesu wrth Ffynnon Jacob oedd esbonio bodolaeth y dŵr bywiol â fyddai'n gyfrwng i achub enaid y wraig wrth y ffynnon. Mae'r dŵr bywiol sy'n dod o Iesu Grist yn gallu diwallu ein hanghenion ni i gyd. Un nodwedd pwysig i'r dŵr hwn yw ei fod yn ddŵr sy'n para byth; mae'n 'ffrwd sy'n llifo i fywyd tragwyddol'.

Llongyfarchiadau i Gwydion Ebenezer a Bryn Shepherd yn eu arholiadau TGAU eleni. Pob dymuniad da iddynt wrth barhau gyda'u hastudiaethau yn Ysgol Penweddig.

Ar ddechrau Tymor yr Hydref, anfonwn ein cofion caredig at Mrs Laura Rumsey-Williams yng Nghysgod y Coed, Miss Jennie Evans yn Hafan-y-Waun a Mr Robert John Davies yng Nghwmcynfelin. Mae yr un cofion yn mynd at Mrs Betty Davies, Mrs Clariss Pyle a Mr Sinnett Jones, ac at yr aelodau a ffrindiau eraill sydd mewn unrhyw anhwylder iechyd ar hyn o bryd.

Adolygiad: Cyngerdd Côr Gospel o Soweto, Canolfan y Celfyddydau, 20 Medi



O seddi uchaf balconi Canolfan y Celfyddydau, oedd wedi eu neilltuo i'r rhai mwyaf di-drefn ynglŷn ag archebu tocynnau, roedd dau berfformiad i'w weld. Y côr a'r gynulleidfa.

Ar y naill law roedd môr o liw. Môr eang, aflonydd, grymus, rhythmig a diflino. Ar y llall cynulleidfa fel cae tatws yn rhesi tywyll a disymud.

Roedd y côr yn rhyfeddol oherwydd eu prysurdeb. Nid yn unig yn canu'n gyfareddol – yn llethol o ran eu hegni – ond hefyd yn dawnsio'n wyllt, amrywio'u patrymau sefyll, arwain a chanu unawd yn eu tro. Y cyfan yn gwneud i hyd yn oed y goreuon o gorau Cymru sy'n efelychu'r math yma o ganu ymddangos yn static iawn.

Ar y llaw arall roedd y cae tatws yn stwyrian. Ambell i ben yn siglo, ambell i un yn mentro clapio. Y môr a orfu, a chyn y diwedd roedd y gynulleidfa yn chwalu'r rhesi yn canu ac yn dawnsio.

Ond rhywsut roeddwn i'n dal i adael gyda'r teimlad fod y ddau berfformiad yn ddelwedd gref o'r gwrthgyferbyniad mewn patrymau addoli.

Emyn priodasol

Caniad Solomon 2.10–13
Y mae fy nghariad yn galw arnaf / ac yn dweud wrthyf / 'cod yn awr fy anwylyd / a thyrd fy mhrydferth / oherwydd edrych aeth y Gaeaf heibio / ciliodd y glaw a darfu / y mae'r blodau / yn ymddangos yn y meysydd / daeth yn amser i adar ganu / ac fe glywir cân y durtur yn ein gwlad / y mae'r ffigysbren yn llawn ffigys ir / a blodau'r gwinwydd yn gwasgaru aroglau peraidd. / Cod yn awr, f'anwylyd / a thyrd fy mhrydferth.'

Clywch fy nghariad, clywch fy nghariad,
Clywch mae'n galw, clywch y gri:
'Cwyd f'anwylyd, cwyd f'anwylyd,
Cwyd a thyrd fy mhrydferth i.
Edrych, aeth y gaeaf heibio,
Ciliodd glaw a darfu'r drin,
Cododd gwrid i ruddiau'r meysydd,
Gwlith y bore sydd fel gwin.'

Clywch fy nghariad, clywch fy nghariad,
Clywch mae'n galw, clywch y gri:
'Cwyd f'anwylyd, cwyd f'anwylyd,
Cwyd a thyrd fy mhrydferth i.
Edrych mae y byd yn flodau
Fel tae'r perthi oll ar dân,
A clyw hwyl y greadigaeth
Draw ym mharti'r adar mân.'

Clywch fy nghariad, clywch fy nghariad,
Clywch mae'n galw, clywch y gri:
'Cwyd f'anwylyd, cwyd f'anwylyd,
Cwyd a thyrd fy mhrydferth i.
Edrych mae y brigau'n plygu
O dan bwysau ffrwythau braf,
Edrych aeth y gaeaf heibio
Cwyd f'anwylyd mae hi'n Haf!'
(gan Rocet Arwel Jones, ar gyfer ei briodas â Sharon Owen,
26 Medi, 2009)

Gweddi

Diolchgarwch am y cynhaeaf

Ein Tad, awdur bywyd, cynhaliwr pob dim byw,
a'n harweinydd trwy Iesu, i fywyd llawn:
diolchwn i ti am gynnyrch y ddaear a'r môr,
llysiau y caeau a'r gerddi,
a ffrwythau'r coed a'r llwyni;
am yr hawl a'r gwynt a'r glaw
a roes gynnydd ac aeddfedrwydd i'r had;
am yr amaethwr a'r garddwr
fu'n bartneriaid ffyddlon a diwyd i ti,
yn trin y tir ac yn hau,
yn cywain ac yn casglu i ysguboriau;
am y crefftwyr a'r gweithwyr fu'n gyfrifol
fod y cynhaeaf yn gynhaliaeth
wrth law ar ein cyfer,
i'n cadw ni a'n teuluoedd yn fyw ac yn iach.
Ond, O Dad, rho i ni raslonrwydd Iesu Grist
i gofio am y rhai sydd mewn angen,
trwy weddïo, trwy rannu
a thrwy geisio trefn decach i'r gwan a'r tlawd.

Rho i ni nerth i wneud ein rhan',
yn enw Iesu Grist.

Bore Sul, 11 Hydref, 10 o'r gloch

Gwasanaeth Diolchgarwch

Ysgol Sul y Plant

SWYDDOGAETHAU Hydref 2009

Blaenor y Mis Mr Wyn Hughes

Porthorion

Morfa: Miss Eleri Davies, Mr Gwynfor Jones.
Dr Alun Morris, Mrs Shelagh Jones

Ebeneser: Mrs Denise Morgan

Blodau'r Cysegr

Y Morfa

4 Mrs Betty Griffiths
11 Mrs Jean L. Davies
18 Mrs Sarah Down
25 Mrs Gwladys Adams a Mrs Eileen Jones

Ebeneser

4 Mrs Megan J. Evans
11 Mrs Sylvia Lewis
18 Mrs Clariss Pyle
25 Mrs Margaret McLaren

Cynorthwywyr Llestri Cymun

Mrs Bet Evans, Mrs Eileen Jones,
Ms Gwerfyl Pierce Jones, Mrs Megan N Williams

Cynorthwywyr Ariannol

4 Mrs Glenys James a Mr Hefin Jones
11 Mr a Mrs Merfyn Davies
18 Mr D Meirion Jones a Mrs Beti Roberts
25 Mr Rhys Jones a Mrs Mary Fitter

Tregerddan

27 Dan ofal Mr Glyndwr Griffiths a Dr Noel Lloyd

Llun y clawr: y Briodas yng Nghana gan He Qi, arlunydd Cristnogol o Tseina. Priodas Tseineaidd a ddarlunir, a'r briodasferch yn gwisgo fêl coch am ei phen. I'r dde o'r cwpl mae'r *shuangxi*, y mae'r Tseineaid yn ei hongian mewn priodas gan ei fod yn dod â lwc dda; i'r chwith mae llusern goch, symbol priodasol arall. Mae'r gweision yn tywallt diod i jariau gwin mawr, ac mae *jiu* wedi ei ysgrifennu ar y jariau, y gair Tseineaidd am win.

DYDDIADUR Hydref 2009

Gwasanaethau'r Sul

10.00 a 6.00 yn y Morfa, 2.15 yn Ebeneser

4 Grŵp Dr Noel Lloyd yn y bore a'r prynhawn.
Parch Peter Thomas yn y nos (Cymun)

11 Diolchgarwch y plant.
Mr Walford Gealy yn y prynhawn;
Parch Roger E Humphreys yn y nos

18 Parch Megan Williams – trwy'r dydd

25 Parch Catrin Roberts – trwy'r dydd

YSGOLION SUL

Plant: bore am 10.00

Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore (y maes fydd 'Cwestiynau Mawr Bywyd', gan Euros Wyn Jones. Croeso i aelodau newydd.)

Hwyl Hwyr a'r Clwb Ieuenctid

3.45–5.00 nos Lun.

Y GYMDEITHAS – nos Lun, Morfa am 7.00

28 Medi – Huw Walters yn trafod 'Cylchgronau'r oes o'r blaen'

12 Hydref – Swper Diolchgarwch, yng nghwmni'r Parch Enid Morgan

CYLCH GWEDDI A CHOFFI – bore Mawrth, 10.30

CYRDDAU GWEDDI DIOLCHGARWCH

13 am 11.00

15 am 7.00

CYFARFODYDD WYTHNOSOL – nos Iau am 7.00

CYMORTH CRISTNOGOL

5 Cinio Bara a Chaws yn Waunfawr

Golygyddion y mis hwn yw Ann Hawke a Sarah Down. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Hydref os gwelwch yn dda at Siân Eleri (sianeleri@urdd.org) neu Gwenan Creunant (gwc@aber. ac.uk) erbyn Gwener, 16 Hydref.